Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Canllawiau diogelu
Plant a phobl ifanc

Chwefror 2018

## 1. Nod y canllawiau

Mae Comisiwn y Cynulliad yn cydnabod ei ddyletswydd gofal i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, ac mae'n ymrwymedig i sicrhau bod ei arfer diogelu yn adlewyrchu ei gyfrifoldebau statudol a'i ganllawiau perthnasol. At ddibenion y canllawiau hyn, plentyn neu berson ifanc yw unrhyw un sy'n iau na 18 mlwydd oed.

Mae'r canllawiau hyn yn cydnabod bod lles a buddiannau plant yn hollbwysig dan bob amgylchiad. Ei nod yw sicrhau, waeth beth yw oedran, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd neu gred, ethnigrwydd, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu gefndir economaidd-gymdeithasol plant a phobl ifanc, y bydd pob un ohonynt yn:

- cael profiad cadarnhaol a difyr wrth ymgysylltu â'r Cynulliad, naill ai wrth ymweld ag ystâd Comisiwn y Cynulliad, yn ystod ymweliadau a digwyddiadau a gynhelir gan ei gynrychiolwyr ac unrhyw gysylltiad 'ar-lein', drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy rwydweithio cymdeithasol; a
- cael eu diogelu rhag camdriniaeth wrth ymweld ag ystâd Comisiwn y Cynulliad neu wrth gymryd rhan yn yr ymweliadau a'r digwyddiadau a gynhelir gan ei gynrychiolwyr neu gysylltiad 'ar-lein', drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy rwydweithio cymdeithasol (Technoleg

Gwybodaeth a Chyfathrebu 'TGCh').

Fel rhan o'n harfer diogelu, bydd Comisiwn y Cynulliad yn:

- hyrwyddo a blaenoriaethu diogelwch a lles plant a phobl ifanc;
- sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu;
- sicrhau bod pawb yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl, fel y gallant adnabod, nodi ac ymateb i arwyddion o gam-drin ac esgeulustod er mwyn gallu cymryd camau priodol i ddiogelu plant a phobl ifanc. Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth yn cael ei ddarparu yn fewnol i'r holl staff. Darperir hyfforddiant manwl ar gyfer Swyddogion Diogelu Penodedig a staff sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â phobl ifanc;
- sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn achos digwyddiadau / pryderon am gam-drin, ac y darperir cefnogaeth i'r unigolyn / unigolion sy'n codi neu'n datgelu pryderon;
- sicrhau bod cofnodion cyfrinachol, manwl a chywir o'r holl bryderon diogelu yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddiogel;
- sicrhau na chaiff unigolion anaddas eu cyflogi gan Gomisiwn y Cynulliad;
- sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith, a'u bod yn cael eu diweddaru a'u bod yn berthnasol.

Caiff y canllawiau eu hyrwyddo ym mhob rhan o'r Cynulliad Cenedlaethol, ac maent yn gymwys i bob aelod o staff a'r rheini sydd ar brofiad gwaith neu drefniadau tebyg (cyfeirir atynt ar y cyd yn y ddogfen hon fel 'staff').

Mae'r canllawiau hefyd yn gweithredu fel gwybodaeth gyfeirio ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth (gweler Adran 4).

# 2. Diben y canllawiau

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau bod staff Comisiwn y Cynulliad yn deall beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon bod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mae'r canllawiau yn helpu staff i:

- Gydnabod cam-drin plant ac esgeulustod;
- Ymateb i bryderon am yr holl weithwyr (gweithwyr dros dro a pharhaol), contractwyr neu'r rhai sydd ar brofiad gwaith neu drefniadau tebyg, a defnyddwyr ac ymwelwyr eraill yr ystâd;
- Rhoi gwybod am bryderon ynghylch cam-drin plentyn neu gael arweiniad; a
- Chofnodi pob gwybodaeth a chamau sy'n berthnasol i'r pryder.

# 3. Ar gyfer pwy y mae'r canllawiau?

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r holl staff ac yn cydnabod bod gan bawb yng Nghomisiwn y Cynulliad gyfrifoldeb i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel.

# 4. Gwybodaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

Nid yw Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth yn gyflogeion Comisiwn y Cynulliad. Fodd bynnag, efallai yr hoffent ddefnyddio'r canllawiau hyn a gweithdrefnau cysylltiedig i gyfeirio atynt ar gyfer eu trefniadau diogelu eu hunain.

Efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth am ddilyn y canllawiau drwy gysylltu â swyddog perthnasol yng Nghomisiwn y Cynulliad i ofyn am gyngor pellach os ydynt am roi gwybod am unrhyw bryderon.

# 5. Cydnabod cam-drin

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â cham-drin plant a phobl ifanc yn gorfforol, yn rhywiol, yn seicolegol/emosiynol a'u hesgeuluso. Mae'r categorïau o gamdriniaeth a'u diffiniadau, a ddefnyddir gan Gomisiwn y Cynulliad, wedi'u nodi yn y canllawiau statudol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc yng Nghymru ('Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 'Llywodraeth Cymru 2007)[1]. Mae diffiniadau o gamdriniaeth ar gael yn Atodiad 1.[2]

# 6. Ymateb i bryderon ynghylch cam-drin (y weithdrefn)

Gall gweld neu gael gwybod am gam-drin, neu blentyn yn datgelu cam-drin wrthych, greu teimladau cymysg a allai gynnwys anghrediniaeth, pryder, dicter ac ymdeimlad o gael eich gorlethu. Er mwyn eich tywys drwy'r sefyllfaoedd hyn, mae'r canlynol yn darparu camau syml y mae angen i chi eu cymryd.

Os oes gennych bryderon am blentyn neu berson ifanc ond rydych yn ansicr a yw'r hyn yr ydych wedi'i weld, ei glywed neu wedi cael gwybod amdano yn gam- drin, dylech bob amser ofyn am gyngor ac arweiniad. Mae bob amser yn well bod yn or-ofalus na pheidio â chymryd unrhyw gamau. Yn y sefyllfa hon, dylech gysylltu i ddechrau â'r Swyddog Diogelu Penodedig.

Mae Adran 7 yn cynnwys manylion am y Swyddog Diogelu Penodedig a manylion cyswllt mewnol eraill. Os nad yw'r rheini a restrir ar gael, gellir cysylltu â Llinell Gymorth NSPCC ar 0808 800 5000 y tu allan i oriau hefyd. Nodir rôl y Swyddog Diogelu Penodedig yn Adran 7 y ddogfen hon. Yn fyr, ei rôl yw bod yn bwynt canolog ar gyfer rhoi gwybod am bryderon, a rhoi cyngor ac arweiniad i staff o ran pryderon ynghylch diogelu plant a phobl ifanc.

---

[1] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ganllawiau newydd yn dilyn newidiadau a wnaed gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

[2] Mae'r diffiniadau wedi'u diweddaru i gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau a wnaed gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac unrhyw newidiadau a wnaed i ddiffiniadau o fewn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 (sydd hefyd yn y broses o gael eu diweddaru).

## Canllawiau cyffredinol

Bwriad y canllawiau hyn yw eich helpu i ymdrin â sefyllfa:

- os bydd plentyn neu berson ifanc yn dweud wrthych ei fod ef neu rywun mae'n ei adnabod yn cael ei gam-drin;

**neu**

- os byddwch yn gweld neu'n cael gwybod am ymddygiad tuag at blentyn neu berson ifanc sy'n anarferol, yn amhriodol neu sy'n peri pryder ichi.

- Dylid dilyn y weithdrefn isod p'un a yw'r pryderon yn codi ar ystâd y Cynulliad Cenedlaethol neu yn nigwyddiadau'r Cynulliad oddi ar y safle (er enghraifft, ar fws y Cynulliad, yn ystod gwaith allgymorth, cyfarfodydd pwyllgor oddi ar y safle ac ati) neu drwy TGCh.

Os caiff bywyd plentyn neu berson ifanc ei fygwth dylech, wrth gwrs, roi gwybod i'r staff diogelwch a/neu'r gwasanaethau brys.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd bygythiad i les y plentyn neu'r person ifanc, ond efallai na fydd y bygythiad hwnnw yn gwarantu presenoldeb y gwasanaethau brys. Yn hytrach, dylech hysbysu'r Swyddog Diogelu Penodedig ar unwaith. Dylech ddarllen y wybodaeth yn Adran 7 er mwyn dod o hyd i fanylion cyswllt eraill os nad yw'r Swyddog Diogelu Penodedig cyntaf ar gael.

Ar y gorau, dim ond cynnig camau gweithredu clir i ymdrin â'r sefyllfaoedd mwyaf rhagweladwy y gall polisi a gweithdrefnau ei wneud. Fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd pan nad yw pryderon ynghylch plentyn neu berson ifanc o fewn cwmpas y polisi a'r gweithdrefnau, neu pan fo ansicrwydd ynghylch beth i'w wneud, dylech bob amser ofyn am gyngor ac arweiniad, drwy gysylltu i ddechrau â'r Swyddog Diogelu Penodedig.

Os nad yw'r Swyddogion Diogelu Penodedig ar gael, yna cysylltwch â Llinell Gymorth NSPCC ar **0808 8005000**. Gellir cysylltu â'r rhif hwn y tu allan i oriau hefyd.

## Pa gamau y dylech eu cymryd?

Os ydych yn pryderu ynghylch y canlynol:

- os bydd plentyn neu berson ifanc wedi dweud wrthych ei fod ef neu rywun mae'n ei adnabod yn cael ei gam-drin;

  **neu**

- os byddwch yn gweld neu'n cael gwybod am ymddygiad tuag at blentyn neu berson ifanc sy'n anarferol, yn amhriodol neu sy'n peri pryder ichi.

Dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Penodedig cyn gynted â phosibl (gweler Adran 7 am y manylion cyswllt). Dylech hefyd roi gwybod i'ch rheolwr. Ni fydd disgwyl i'ch rheolwr roi unrhyw gyngor nac arweiniad ichi, ond dylai fod yn ymwybodol o'r sefyllfa.

Yna bydd angen i chi gofnodi:

1. Y pryderon
2. Y dyddiad, yr amser a'r lle
3. Y bobl sy'n gysylltiedig (gan gynnwys pa fanylion sy'n hysbys am y plentyn neu'r person ifanc)
4. Y camau y cytunwyd arnynt ac a gymerwyd (gan gynnwys pwy a gytunodd / a weithredodd)
5. Y datgeliad, os gwnaed un, gan y plentyn neu'r person ifanc.

Mae profforma sy'n nodi'r camau ar gyfer cofnodi'r wybodaeth y bydd angen ichi ei rhoi i'r Swyddog Diogelu Penodedig. Mae ar gael yn Atodiad 3.

Bydd y Swyddog Diogelu Penodedig yn penderfynu ar unrhyw gamau dilynol y bydd angen eu cymryd ac yn eich hysbysu ohonynt. Dylech hefyd roi gwybod i'ch rheolwr.

Mae'r canlynol yn egluro sut y dylech/na ddylech ymddwyn a pha gamau y dylech/na ddylech eu cymryd os byddwch yn ymdrin â sefyllfa sy'n peri pryder ichi.

## Beth y dylech ei wneud

- **Dylech** roi sicrwydd i'r plentyn neu'r person ifanc y gwnaeth y peth cywir drwy ddweud wrthych;
- **Dylech** fod yn agored ac yn barod i wrando;
- **Dylech** wrando'n ofalus;
- **Dylech** ddweud wrth y plentyn neu'r person ifanc eich bod yn cymryd ei bryderon o ddifrif;
- **Dylech** ddweud wrth y plentyn neu'r person ifanc y bydd angen ichi ddweud wrth bobl a all ei helpu, ac y byddwch ond yn rhoi'r wybodaeth i'r bobl hynny yn unig;
- **Dylech** ddweud wrth y plentyn neu'r person ifanc beth fydd yn digwydd nesaf;
- **Dylech** wrando a chofnodi'r hyn y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i ddweud wrthych heb ymyrryd, cwestiynu nac annog.

## Beth na ddylech ei wneud

- **Peidiwch** âgweithredu gydag anghrediniaeth, cywilydd neu mewn unrhyw ffordd sy'n cyfleu wrth y plentyn nad ydych am glywed;
- **Peidiwch** â llunio casgliadau, yn enwedig am y sawl sy'n cam-drin yn honedig;
- **Peidiwch** â dyfalu dim neu gyhuddo unrhyw un;
- **Peidiwch** â dweud wrth y plentyn y byddwch yn cadw ei gyfrinach;
- **Peidiwch** â gofyn i'r plentyn neu'r person ifanc unrhyw gwestiynau amlwg neu unrhyw gwestiynau am y datgeliad;
- **Peidiwch** â gwneud addewidion na allwch eu cadw;
- **Peidiwch** ag atal plentyn sy'n siarad yn rhydd;
- **Peidiwch** â rhoi addewid am gyfrinachedd llwyr;
- **Peidiwch** â gofyn i'r plentyn neu'r person ifanc lofnodi'r datgeliad.

Beth nesaf?

- **Dylech** roi gwybod i'r Swyddog Diogelu Penodedig ar unwaith;
- **Dylech** gofnodi'r hyn a ddywedwyd wrthych cyn gynted â phosibl (gweler uchod ac Atodiad 3);
- **Dylech** gofnodi'r hyn a ddatgelodd y plentyn neu'r person ifanc (gan ddefnyddio cofnod gair am air cymaint â phosibl) a dim byd arall.
- **Peidiwch** â cheisio ymchwilio i'r honiad na chysylltu â'r sawl sydd wedi cam-drin yn honedig

# 7. Swyddogion Diogelu Penodedig

Er bod diogelu plant a phobl ifanc yn gyfrifoldeb ar bawb sy'n gweithio yng Er bod pawb sy'n gweithio yng Nghomisiwn y Cynulliad yn gyfrifol am ddiogelu, y DSO yw'r prif bersonél Diogelu ac mae ganddo rôl strategol a gweithredol. Mae rhagor o wybodaeth am weithredu, llywodraethu a monitro'r canllawiau hyn ar gael yn Atodiad 2. Mae'r DSOs:

- Yn gyfrifol am ymdrin â phryderon o ran diogelu o fewn Comisiwn y Cynulliad;
- Yn bwynt canolog ar gyfer adrodd am bryderon a chyhuddiadau diogelu, ac am ymdrin â hwy;
- Yn ymdrin â chyfeiriadau, a chysylltu ag asiantaethau Diogelu Plant allanol a'r Heddlu; a
- Yn rhoi cyngor ac arweiniad i staff ar faterion a phryderon sy'n ymwneud â diogelu.

Wrth gyflawni'r rolau hyn, bydd y Swyddogion Diogelu Penodedig yn cael cymorth gan y tîm Adnoddau Dynol. Bydd y tîm Adnoddau Dynol:

- yn datblygu, yn gweithredu ac yn monitro'r polisi a'r gweithdrefnau;
- yn cadw pob cofnod o bryderon a honiadau; ac
- yn trefnu hyfforddiant ar ddiogelu.

# 8. Adnoddau a chefnogaeth

## Rhifau cyswllt

- Pryderon am gam-drin plant a phryderon ynghylch staff, neu gyngor ac arweiniad (y Swyddogion Diogelu Penodedig) a'r rhifau i'w defnyddio y tu allan i oriau - gweler adran 7.
- Rhifau cyswllt Gwasanaethau Plant yn yr ardal y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i leoli ynddi: Pwynt Mynediad Caerdydd: 029 2053 6490 (8.30 – 17.00 oriau swyddfa o ddydd Llun i ddydd Gwener) neu'r Tîm Cymorth Dyletswydd Brys 029 2078 8570 (y tu allan i oriau)
- Rhifau Cyswllt yr Heddlu: Uned Heddlu'r Cynulliad Cenedlaethol 8090 neu 999 (mewn argyfwng)
- ChildLine y NSPCC: (ar gyfer plant a phobl ifanc) 0800 1111
- Llinell Gymorth NSPCC: 0808 800 5000 (I oedolion sy'n pryderu am Blentyn neu Bobl Ifanc).

# Atodiad 1: Diffiniadau o gamdriniaeth

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â cham-drin plant a phobl ifanc yn gorfforol, yn rhywiol, yn seicolegol/emosiynol a'u hesgeuluso. Y categorïau hyn o gamdriniaeth a'u diffiniadau, a ddefnyddir gan Gomisiwn y Cynulliad yw'r rhai a nodir yn y canllawiau statudol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc yng Nghymru ('Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 'Llywodraeth Cymru 2007)[3]. Ychwanegodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 gategori newydd o gam-drin, sef cam-drin 'ariannol'. Nid oes diffiniad o gam-drin

[3] lle mae diffiniadau wedi cael eu diwygio wedyn gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu newidiadau i Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, mae'r diffiniad yn y canllaw hwn yn adlewyrchu'r diffiniad diwygiedig.

ariannol wedi'i gynnwys yn y polisi hwn gan y bydd yn llai cyffredin i blant. Gall Swyddog Diogelu Penodedig roi cyngor pellach pe baech chi'n pryderu am gam-drin ariannol yn ymwneud â phlentyn.

Mae'n bwysig nodi nad yw cam-drin neu esgeulustod plentyn wedi'i gyfyngu i achosi niwed; mae hefyd yn cyfeirio at fethu ag atal niwed. Hefyd, nid yw cam-drin plant wedi'i gyfyngu i gyswllt personol, a gall ddigwydd drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd, y cyfryngau cymdeithasol a safleoedd rhwydweithio. Mae'r canllawiau statudol yn nodi, 'Gall plentyn ddioddef camdriniaeth mewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol; gan rywun y mae'n ei adnabod, neu'n fwy anarferol, gan ddieithryn.'
*(Llywodraeth Cymru, t.138, 2007).*

## Cam-drin corfforol

'Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol i blentyn mewn ffordd arall. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu ofalwr yn gwneud neu'n achosi salwch mewn plentyn y maent yn gofalu amdanynt. Gall cam-drin corfforol arwain yn uniongyrchol at niwed niwrolegol, anafiadau corfforol, anabledd neu – yn fwyaf eithafol - marwolaeth. Mae'n bosibl y bydd y cam-drin ei hun yn achosi niwed i'r plant, neu gamdriniaeth ehangach o wrthdaro ac ymosod sy'n digwydd mewn cyd-destun teuluol neu sefydliadol.'
*(Llywodraeth Cymru t. 138, 2007).*

## Cam-drin seicolegol / emosiynol

'Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus, sef achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Efallai y bydd yn golygu dweud wrth blant eu bod yn ddiwerth neu nad oes neb yn eu caru, eu bod yn annigonol, neu'n werthfawr dim ond i'r graddau y maent yn diwallu anghenion person arall. Gall gynnwys disgwyliadau o ran oedran neu ddisgwyliadau datblygiadol amhriodol a osodir ar blant. Gall olygu bod y plant yn aml yn teimlo'n ofnus neu eu bod mewn perygl, er enghraifft drwy fod yn dyst i gam-drin yn y cartref neu drwy gael eu bwlio, neu drwy ymelwa ar blant neu'u llygru. Mae rhywfaint o gam-drin seicolegol/emosiynol yn gysylltiedig â phob math o driniaeth wael o blentyn, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.'
*(Llywodraeth Cymru t. 138, 2007)*[4]

## Cam-drin rhywiol

'Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu dynnu sylw plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu annhreiddiol.

Gallant olygu gweithgareddau heb gyffwrdd, fel, cynnwys plant i edrych ar, neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd anaddas yn rhywiol.'
*(Llywodraeth Cymru t. 139. 2007).*

## Esgeuluso

'Mae esgeulustod yn golygu methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o arwain at nam ar les y person (er enghraifft, nam ar ddatblygiad plentyn); Gallai olygu bod rhiant neu ofalwr yn peidio â darparu bwyd, cysgod a dillad digonol, neu'n methu â diogelu plentyn rhag niwed corfforol neu berygl, neu'r methiant i sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol plentyn, neu beidio ag ymateb iddynt.'
*(Llywodraeth Cymru t. 139. 2007)*[5]

---

[4] Mae'r diffiniad wedi'i ddiwygio i adlewyrchu newidiadau a wnaed gan Weithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan (2008).

[5] The definition has been amended to reflect changes made by the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.

Ymhlith yr enghreifftiau o bryderon posibl o ran Diogelu Plant yng Nghomisiwn y Cynulliad mae::

- bod staff yn dod i gysylltiad â phlentyn neu berson ifanc y maen nhw'n credu sydd, neu sydd mewn perygl o, gael ei esgeuluso neu'i gam-drin yn gorfforol, yn seicolegol/emosiynol neu'n rhywiol
- camdriniaeth gan gyflogeion y Cynulliad neu rai sy'n defnyddio ystâd y Cynulliad;
- camdriniaeth gan y cyhoedd neu bobl eraill sy'n cymryd rhan mewn digwyddiad, cynhadledd, arddangosfa neu unrhyw beth tebyg;
- camdriniaeth gan athro, arweinydd grŵp neu oedolyn arall;
- camdriniaeth gan rieni;
- hunan-niweidio; a
- chamdriniaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd neu ffonau symudol (TGCh). Ymhlith yr enghreifftiau o'r math hwn o gamdriniaeth mae 'seiberfwlio'; 'stelcio seiber'; trin lluniau; edrych ar luniau pornograffig, treisgar neu amhriodol; y plentyn neu berson ifanc yn anfon lluniau anweddus o'i hun ('sexting' yn Saesneg), neu rywun yn gofyn iddo wneud hynny; cysylltiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu 'ystafelloedd sgwrsio' gyda phobl sy'n awyddus i gam-drin plant a phobl ifanc yn rhywiol ('grooming' yn Saesneg).

  Gall plant a phobl ifanc hefyd gam-drin ei gilydd a dylid trin camdriniaeth o'r fath yr un mor ddifrifol â chamdriniaeth gan oedolyn;

# Atodiad 2: Rolau, cyfrifoldebau, llywodraethu a monitro

Mae’r canllawiau hyn yn gymwys i staff Comisiwn y Cynulliad. Mae’r trefniadau ar gyfer gweithredu, llywodraethu a monitro ar gael isod.

| Rol | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr | Cael diweddariad chwarterol ar weithredu’r polisi diogelu.<br><br>Cael gwybod am bob achos at ddibenion monitro.<br><br>Ymchwilio i unrhyw faterion sy’n ymwneud ag ymddygiad y Swyddogion Diogelu Penodedig.<br><br>Derbyn ymholiadau ac adroddiadau gan staff os nad oes Swyddog Diogelu Penodedig ar gael (e.e. y tu allan i oriau). |
| Swyddogion Diogelu Penodedig | Derbyn ymholiadau a/neu adroddiadau ysgrifenedig gan staff sydd â phryderon ynghylch materion diogelu, neu dystiolaeth o'r materion hynny.<br><br>Gwneud penderfyniadau ar p'un a ddylid cyfeirio adroddiadau at yr awdurdodau priodol, a chael cyngor allanol yn ôl yr angen.<br><br>Anfon gwybodaeth at y tîm Adnoddau Dynol i'w ffeilio a gwneud gwaith dilynol arni. |
| Y tîm Adnoddau Dynol | Cynnal y polisi a pholisïau cysylltiedig.<br><br>Trefnu hyfforddiant.<br><br>Cynnal cofnodion o'r adroddiadau at Swyddogion Diogelu Penodedig a'u penderfyniadau.<br><br>Ar ôl i Swyddog Diogelu Penodedig wneud penderfyniad i gyfeirio adroddiad, cysylltu â'r awdurdodau priodol e.e. mewn perthynas â rhagor o wybodaeth/cyfweliadau angenrheidiol. |
| Yr holl staff | Darllen y polisi a chyflawni hyfforddiant.<br><br>Pan fo pryderon neu dystiolaeth am faterion diogelu, dilyn y polisi, cofnodi pryderon a chysylltu â Swyddog Diogelu Penodedig cyn gynted â phosibl. |

| | |
|---|---|
| | Bod ar gael i ateb unrhyw gwestiynau dilynol am y mater y rhoddwyd gwybod amdano. |

# Atodiad 3: Ffurflen ar gyfer cofnodi gwybodaeth

Dylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio i gofnodi manylion am unrhyw bryderon a godwyd. Dylid ei hanfon at y Swyddog Diogelu Penodedig a'i marcio'n gyfrinachol.

Os oes mwy nag un dioddefwr honedig, dylid llenwi ffurflen ar wahân.

Rhaid gwneud pob ymdrech i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol a dim ond ei rhannu gyda'r Swyddog Diogelu Penodedig yn ystod y cam cychwynnol.

## MANYLION Y PERSON SY'N LLENWI'R FFURFLEN

**Enw:** **Rhif Ffôn:**

**Adran:**

## MANYLION Y DIGWYDDIAD

**Dyddiad y cafodd y digwyddiad ei adrodd neu'i weld:**

**Disgrifiad o'r digwyddiad/au neu'r hyn a gafodd ei weld:**

**Y pryderon:**

**Y dyddiad, amser a lleoliad:**

**Y bobl sy'n gysylltiedig**
(gan gynnwys pa fanylion sy'n hysbys am y plentyn a pherson ifanc)

**Y datgeliad, os gwnaed un, gan y plentyn neu'r person ifanc:**

**Unrhyw beth arall?**

**Cadarnhewch pa Swyddog Diogelu Penodedig y cysylltwyd ag ef ac amser y cyswllt:**

# Adolygiad o’r polisi

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (‘Comisiwn y Cynulliad’) yn ymrwymedig i adolygu ei weithdrefnau ar gyfer diogelu flwyddyn ar ôl eu rhoi ar waith ac yna bob dwy flynedd neu’n unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol newydd neu ddigwyddiad neu newid arwyddocaol.

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau dros dro ar gyfer holl staff Comisiwn y Cynulliad. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod y canllawiau’n ategu ac yn gwella’r trefniadau presennol sy’n cefnogi pob cyflogai yn ei waith.Lluniwyd y canllawiau hyn mewn ymgynghoriad ag NSPCC Cymru.

Mae crynodeb o’r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg a Chymraegar gais.

Os oes angen copi o’r ddogfen hwn arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**www.cynulliad.cymru**

**cysylltu@cynulliad.cymru**

0300 200 6565

Rydym yn croesawu galwadau gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Text Relay

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy’n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.